OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 Rhif 367 (Cy.33)

# CAFFAEL TIR, CYMRU
# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Darpariaethau Malltod) (Cymru) 2005

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *22 Chwefror 2005* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Ebrill 2005* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 149(3)(a) a 333(7) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**1**) ac adrannau 143 a 147 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**2**), ac sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**3**), a phob pŵer arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Darpariaethau Malltod) (Cymru) 2005 a daw i rym ar 1 Ebrill 2005.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru.

**Terfyn gwerth blynyddol**

**2.** £29,200 yw'r swm a ragnodir at ddibenion adran 149(3)(a) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**Dirymu**

**3.** Dirymir drwy hyn Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Darpariaethau Malltod) (Cymru) 2000(**4**) .

(**1**) 1990 p.8.
(**2**) 1988 p.41.
(**3**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) fel a amrywiwyd gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2000 (O.S. 2000/253) (Cy.5).
(**4**) O.S. 2000/1169 (Cy.94).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**5**).

*D. Elis-Thomas*

22 Chwefror 2005

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**5**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r darpariaethau ynglŷn â hysbysiadau malltod yn adrannau 149 i 171 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("y Ddeddf") yn galluogi personau sydd â buddiannau penodol mewn categorïau o dir, a bennir yn Atodlen 13 i'r Ddeddf (gan gynnwys tir y mae cynigion cynllunio a chynigion priffyrdd penodol yn effeithio arno), i'w gwneud yn ofynnol i'r awdurdod priodol gaffael eu buddiant yn y tir.

Un o'r buddiannau mewn tir sy'n gymwys i'w diogelu yw buddiant perchen-feddiannydd hereditament (sef hereditament perthnasol o fewn ystyr adran 64(4)(a) i (c) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988) pan na fydd gwerth blynyddol yr hereditament yn fwy nag unrhyw swm a ragnodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol (adran 149(3)(a) o'r Ddeddf).

Mae'r pŵer i ragnodi'r swm hwnnw, i'r graddau y mae'n arferadwy o ran Cymru, wedi'i freinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru a, thrwy arfer ei bwerau, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy'r Gorchymyn hwn, yn codi'r terfyn gwerth blynyddol o £24,600 i £29,200 i gymryd ailbrisio'r ardrethi yn y flwyddyn 2005 i ystyriaeth.

Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru.

Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Darpariaethau Malltod) (Cymru) 2000 (O.S. 2000/1169) (Cy.94) wedi'i ddirymu.